

<b>Teitl:</b> Strategaeth ar gyfer Yr Ystad Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr – Cynlluniau ar gyfer 2011/12-2014/15  <b>Adran neu asiantaeth arweiniol:</b> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr  <b>Gweinyddiaethau/Adrannau eraill:</b> Uned Polisi Cyfiawnder Ieuencid (y Weinyddiaeth Cyfiawnder)	<b>Asesu Effaith</b>
	<b>Dyddiad:</b> 19/07/2011
	<b>Cam:</b> Ymgynghoriad
	<b>Ffynhonnell Ymyrraeth:</b> Domestig
	<b>Math o Fesur:</b> Arall
	<b>Cysylltu ar gyfer ymholiadau:</b> secureestatestrategy@yjb.gov.uk

### Asesu Effaith – Crynodeb

#### Cyflwyniad

1. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) wedi lansio ymgynghoriad ar ei strategaeth ar gyfer yr ystâd sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf fel rhan o Bapur Gwyrdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder, *'Breaking the Cycle'*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010.
2. Mae'r adolygiad o'r strategaeth ar gyfer yr ystâd sefydliadau diogel wedi'i ysgogi gan dri dylanwad gwahanol:
  - ailwampio'r ystad sefydliadau diogel yn dilyn gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu neu eu remandio i'w cadw'n gaeth;
  - yr angen i barhau i wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc, a thrwy hynny leihau aildroseddu; a
  - yr angen i gyflawni ymrwymadau'r adolygiad o wariant.
3. Mae'n bwysig fod y gwaith o ddatblygu'r ystad sefydliadau diogel heddiw ac yn y dyfodol yn cael ei wneud yn unol â set o egwyddorion clir a chydgyssylltiedig sy'n cydnabod bod angen gweithredu'n wahanol yng nghyswllt plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw dan glo. Unwaith y cytunir arnynt, rhoddir y flaenoriaeth i'r egwyddorion hyn wrth gomisiynu a phrynu llefydd dan glo.
4. Mae'r strategaeth yn disgrifio set o egwyddorion y gellir seilio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol arnynt. Gall caethiwed roi cyfle i bobl ifanc fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol a sicrhau na fyddant yn troseddu eto. Gall ddarparu strwythur a disgyblaeth a chyfle i gyfrannu at weithgarwch pwrpasol, gan gynnwys ailafael mewn addysg a hyfforddiant. I bobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth, gall fod yn fodd iddynt gael gafael ar driniaeth a chefnogaeth. Er na all caethiwed fynd i'r afael â'r holl broblemau a wynebir gan y bobl ifanc, dylai fod yn gam pwysig mewn proses adsefydlu sy'n rhychwantu'r cyfnod dan glo a'r cyfnod yn y gymuned.
5. Mae'r cynigion a geir yn y strategaeth yn adlewyrchu'r egwyddorion a ddisgrifir ac yn cynnwys ymrwymiad i:
  - **Ailwampio'r ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc** drwy
    - i. Comisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol
    - ii. Ymateb i leihad yn y galw
    - iii. Datblygu unedau gwell er mwyn ymateb yn well i anghenion pobl ifanc

- **Gwella'r broses adsefydlu a lleihau aildroseddu**

Nid yw'r BCI yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl ifanc yn yr ystad sefydliadau diogel. Mewn sawl achos, mae'r gwasanaethau a ddarperir mewn sefydliadau diogel yn cael eu comisiynu gan asiantaethau eraill. Ond, fel comisiynwyr, mae'n bwysig ein bod yn gwbl sicr pa wasanaethau y dylid eu darparu a'r canlyniadau yr ydym yn eu disgwyl.

6. Disgwylir y bydd datblygu a chynnal ystad sefydliadau diogel mwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer plant a phobl ifanc yn y pendraw yn lleihau cyfraddau aildroseddu.
7. Bydd achosion busnes ar gyfer y cynigion unigol yn cael eu datblygu i asesu costau a buddion, gwerth am arian, a fforddiadwyedd yr opsiynau sy'n cael eu cynnig. Bydd argraffiadau pellach o'r Asesiad Effaith hwn yn cael eu cyhoeddi pan fydd hynny'n briodol.

### **Cyrff sy'n dod o fewn Cwmpas y Cynigion**

8. Bydd y cynigion a geir yn yr Asesiad Effaith hwn yn cael effaith yng Nghymru a Lloegr yn unig.
9. Y prif grwpiau yr effeithir arnynt gan y cynigion hyn yw:
  - Darparwyr presennol sefydliadau diogel – NOMS, darparwyr preifat ac Awdurdodau Lleol
  - Darparwyr yn y trydydd sector sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau caethiwo ac ailsefydlu
  - Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau blant yn y system cyfiawnder troseddol
  - Awdurdodau Lleol – yn enwedig Gwasanaethau Plant
  - GIG (Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol)
  - Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc
  - Darparwyr Tai

### **Costau a Buddion**

10. Gan nad yw manylion y polisi wedi'u cwblhau, nid yw'r Asesiad Effaith hwn yn gallu dweud yn union beth fydd costau a buddion yr opsiynau polisi. Mae'r effeithiau hyn yn ddibynnol ar fanylion cynllunio terfynol y cynigion polisi y mae'r Llywodraeth yn ymgynghori arnynt. Byddwn yn darparu amcangyfrif llawn o'r effaith ar gostau a buddion mewn argraffiad dilynol o'r Asesiad Effaith.
11. Gwahoddir ymgynghoreion i gynnig barn a sylwadau ar y cynigion a'r egwyddorion gwahanol, y dystiolaeth ategol a'r costau a buddion cysylltiedig, pa un a ydynt yn feintiol neu'n ansoddol. Byddwn yn ystyried y dystiolaeth a gesglir drwy gyfrwng yr ymgynghoriad wrth ddatblygu'r cynigion terfynol a'r Asesiad Effaith terfynol.


### **Strwythur yr Asesiad o Effaith**

12. Mae'r adran nesaf yn nodi'r 'achos sylfaenol': y tybiaethau y mae'r BCI wedi'u gwneud am duddiadau'r dyfodol oni fydd y newidiadau a geir yn ei strategaeth yn cael eu rhoi ar waith, ac os na fydd newid mewn polisi ac ymarfer. Wedyn mae'r Asesiad o Effaith yn rhoi sylw i'r ddwy brif adran yn y strategaeth yn eu tro (ailwampio'r ystad sefydliadau diogel a gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu).

### Achos Sylfaenol – Opsiwn 0

13. Mae'r achos sylfaenol yn rhagdybio na fydd dim newid i natur a chyfansoddiad yr ystad sefydliadau diogel. Dan yr achos sylfaenol, rhagdybir y bydd y galw am lefydd yn yr ystad sefydliadau diogel yn parhau i ddisgyn dros gyfnod yr adolygiad o wariant, ond yn arafach heb wneud dim newidiadau i ffurfweddiad yr ystad. Mae'r achos sylfaenol hefyd yn rhagdybio na fydd effaith ar y cyfraddau aildroseddu sy'n uchel, gyda 37% o bobl ifanc yn aildroseddu flwyddyn ar ôl eu trosedd gwreiddiol a 72% o droseddwy'r sydd wedi'u dedfrydu i'w cadw dan glo yn aildroseddu.
14. Dros y 24 mis diwethaf, mae'r boblogaeth pobl ifanc yn yr ystad sefydliadau diogel wedi lleihau i lai na 2,000 sydd wedi aros gryn dipyn yn is na'r lefel weithredu ddiogel. Ar hyn o bryd mae gennym ryw 200 o welyau nad ydynt yn cael eu defnyddio, sy'n golygu bod yr ystad yn fwy costus nag oes raid iddi fod. Mae'r siart canlynol yn dangos y tueddiadau hyn mewn poblogaeth a chapasiti.

Siart 1: Nifer y Gwelyau a gomisiynwyd a nifer y bobl ifanc a gafodd eu rhoi dan glo (2006/07 – 2009/10)



15. Yn ogystal â'r rhagdybiaeth ynghylch poblogaeth a chapasiti, mae'r achos sylfaenol hefyd yn rhagdybio y bydd y cyfundrefnau mewn sefydliadau diogel yn parhau fel ag y maent ar hyn o bryd. O ganlyniad, rhagdybir y bydd y cyfraddau aildroseddu ar gyfer y rheini sydd wedi'u dedfrydu i'w cadw dan glo yn aros ar y lefel bresennol o 72% yn aildroseddu cyn pen blwyddyn (cohort 2009) a'r holl gostau cysylltiedig i gymdeithas a'r system cyfiawnder ieuencid. Mae hwn yn mesur y nifer gwirioneddol o droseddwy'r yn y cohort sy'n troseddu o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn olynol, lle arweiniodd y trosedd at euogfarn mewn llys neu benderfyniad y tu allan i'r llys.

## Opsiyau sy'n cael eu hystyried

16. Mae'r adran hon yn rhoi disgrifiad o sut y bydd y cynigion polisi yn y strategaeth yn cyflwyno pecyn a fydd yn ceisio sefydlu system sy'n darparu gwerth am arian drwy gomisiynu effeithiol a lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n aildroseddu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
17. Rhennir yr opsiynau'n ddwy adran – 'ailwampio'r ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc' a 'gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu'. Mae'r cynigion ar gyfer yr olaf yn bennaf yn ymwneud â pharhad gwaith presennol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ac, o'r herwydd, nid y rhain yw ffocws yr asesiad effaith hwn. Byddai cyflwyno'r dulliau gweithredu sy'n cael eu hargymell yn effeithio'n gadarnhaol ar gomisiynu cyfundrefnau mewn sefydliadau diogel gan sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu'n fwy effeithiol gyda'r effaith gadarnhaol a ragwelir ar ymddygiad troseddol.

### *Ailwampio'r Ystad Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc*

18. Mae'r adran hon yn nodi rhagamcanion y BCI o effeithiau'r cynigion polisi yng nghyswllt ailwampio'r ystad sefydliadau diogel. Bwriad y rhain yw sicrhau bod yr ystad sefydliadau diogel yn dod yn ddarpariaeth arbenigol, ar wahân a fydd yn diwallu anghenion yr holl bobl ifanc sy'n cael eu caethiwo gan y llysoedd yn well. Yn ogystal, bydd y cynigion hyn yn sicrhau gwerth am arian drwy gyfateb y galw a'r cyflenwad yn well.
19. Mae'r ffigurau cyhoeddedig diweddaraf yn dweud bod y BCI wedi gwario £305.6m i gomisiynu llefydd i blant a phobl ifanc mewn llety diogel. Mae'r swm yn cynnwys prynu llefydd yn ogystal â chontractau ychwanegol sydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a phartion eraill – megis darparwyr gwasanaeth hebrwng (Adroddiad Blynyddol y BCI 2009/10).
20. Yn ogystal â rôl barhaus y BCI yn arwain – a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder pan drosoglwyddir y cyfrifoldebau statudol – dyma gynigion newydd penodol:
  - a. Opsiw 1: Mewn ymateb i'r gostyngiad cyson yn y galw am lefydd dan glo, parhau i ddatgomisiynu llefydd diogel. Gan adlewyrchu'r gostyngiad yn y galw am lefydd ar gyfer pobl ifanc 10-14 oed, mae'r gostyngiadau yn y llefydd a gomisiynir yn awr yn debygol o fod yn gyfatebol uwch yn y sector cartrefi diogel i blant a'r sector canolfannau hyfforddi diogel. Bydd hyn yn sicrhau y gall yr ystad weithredu'n effeithlon drwy gyflawni arbedion wrth leihau'r capasiti gormodol.
  - b. Opsiw 2: Adeiladu ar yr ymarfer da sy'n cael ei sefydlu lle mae cymorth dwys yn cael ei ddarparu mewn unedau gwell megis Uned Keppel yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc (STI) Wetherby ac Uned Willow yn STI Hindley. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall anghenion y bobl ifanc mwyaf heriol sydd dan glo gael eu diwallu'n effeithiol a thrwy hynny gobeithio gwella'r broses adsefydlu a lleihau aildroseddu.
  - c. Opsiw 3: Byddwn yn datblygu'r gwaith sy'n digwydd eisoes gydag Awdurdodau Lleol i helpu pobl ifanc â'r broses ailsefydlu. Yn y tymor hwy (ac mewn cyfnod a all ymestyn y tu hwnt i'r strategaeth hon), byddwn yn ystyried datblygu nifer bach o is-safleoedd llai a fydd naill ai'n cynorthwyo pobl ifanc i ailsefydlu yn ôl i'r gymuned ar ôl cael eu rhyddhau, gan gynnig llety byw agored, neu lety lled-ddiogel cam-i-lawr. Rydym yn ymwybodol o faint ein pwerau comisiynu ar gyfer datblygu'r cynigion hyn, a byddwn, mewn sawl achos, yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr yn y trydydd sector ac

Awdurdodau Lleol. Nod hyn fydd ceisio sicrhau bod y canlyniadau adsefydlu i bobl ifanc yn cael eu gwella a thrwy hynny leihau aildroseddu.

- d. Opsiwn 4: Archwilio a yw'r pwerau dan Ddeddf Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, fel y'i diwygiwyd gan adran 34 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007, yn caniatáu ar gyfer comisiynu llety amgen ar gyfer nifer bach o droseddwyr ifanc, er mwyn gwella ein gallu i reoli risg a sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl ifanc hyn. Byddai'n rhaid cael deddfwriaeth i roi'r cynnig hwn ar waith.
21. Mae'r opsiynau hyn yn gydnaws â'i gilydd ac ni fydd cyflwyno un yn cyfyngu ar un arall.

### Cost y cynigion

22. Opsiwn 1: Hyd yma, nid yw gweithgareddau datgomisiynu wedi golygu costau ychwanegol sylweddol i'r llywodraeth ac maent wedi'u cyflwyno dan y setliadau ariannu presennol. Os bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth reoli'r broses ddatgomisiynu, telir y rhain o fewn y setliadau ariannu.
23. Opsiwn 2: Gall costau darparu unedau gwell amrywio'n fawr ac maent yn ddibynnol ar y sefydliad penodol lle maent yn gweithredu ynddo. Gallant arwain at gostau cyfalaf ar gyfer darparu cyfleusterau pwrpasol i weithredu cyfundrefn well, a hefyd gallant olygu rhagor o gostau staff.
- O ran Uned Keppel, uned 48 gwely mawr yn STI Wetherby, a agorodd yn 2009, roedd yn rhaid cael oddeutu £13m o fuddsoddiad ar gyfer costau datblygu a chyfalaf. Roedd y costau rhedeg blynyddol o £68,000 y gwely yn uwch hefyd na'r cyfartaledd o £57,000 y pen ar draws gweddill yr ystad sefydliadau troseddwyr ifanc. Ond, mae'r costau hyn yn sylweddol is na'r ddarpariaeth amgen mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a chartrefi diogel i blant lle mae'r pris blynyddol y gwely ar gyfartaledd yn £170,000 a £210,000.
- Byddwn yn ceisio darparu unedau gwell heb yr angen am arian ychwanegol hyd y bo modd. Pan nad oes cyllid cyfalaf ar gyfer unedau gwell newydd wedi bod ar gael, mae'r BCI wedi gweithio mewn partneriaeth â NOMS i nodi cyfleoedd i ddatblygu'r cyfryw unedau yn y sefydliadau cyfredol. Ymysg enghreifftiau diweddar y mae Uned Willow yn STI Hindley, ac Uned Heron yn STI Feltham, lle defnyddiwyd y llety a oedd eisoes ar gael, a gwasanaethau gwell yn cael eu comisiynu wedyn.
24. Opsiwn 3: Mae costau darparu darpariaeth bwrpasol i helpu pobl ifanc â'r broses ailsefydlu yn gallu amrywio'n sylweddol ac yn gallu dibynnu ar faint y sefydliad a lefelau partneriaeth sydd ar gael.
- Er enghraifft, mae'r BCI ar hyn o bryd yn darparu grant sefydlu tair blynedd i gynllun peilot i helpu pobl ifanc â'r broses ailsefydlu. Mae Brent Knoll House yn dŷ hanner ffordd ym Mryste, sy'n darparu llety byw agored i 8 o bobl. Fe'i rheolir gan fudiad yn y trydydd sector. Mae'r cynllun hefyd yn cael arian oddi wrth awdurdodau lleol sy'n comisiynu llefydd i bobl ifanc sy'n byw yn Brent Knoll.
- Mae'r strategaeth yn cynnig datblygu'r ddarpariaeth hon, heb i gostau sylweddol gael eu hwynebu'n ganolog. Byddwn yn darparu goblygiadau llawnach o ran cost mewn asesiadau effaith dilynol a fydd yn adlewyrchu unrhyw weithgarwch wedi'i gynllunio mewn safleoedd ailsefydlu.
25. Opsiwn 4: Nid oes modd ar hyn o bryd darparu rhagamcanion ynghylch y costau gan fod angen manylion polisi o hyd ynghylch nifer posibl y bobl ifanc y byddai hyn yn effeithio arnynt, a'r math o ddarpariaeth a all fod ar gael. Ond, mae'n debygol y byddai'r polisi yn cynnwys darpariaeth prynu ar y pryd oddi wrth ddarparwyr cyfredol ac felly ni fyddai'n golygu unrhyw gostau cyfalaf neu gostau sefydlu.

## **Manteision y cynigion**

26. Opsiwn 1: Petai'r cynnig uchod yn cael ei ddewis, byddai'r BCI yn gallu cysoni'r ddarpariaeth yn well â'r galw am lefydd dan glo gan ddarparu ystad sefydliadau diogel mwy effeithlon a chost-effeithiol. Hefyd, bydd y BCI yn gallu darparu arbedion ariannol yn unol â'i ymrwymiad i gyflawni arbedion ehangach y llywodraeth.
27. Opsiwn 2: Un fantais bosibl o gynyddu nifer yr unedau gwell ar draws yr ystad yw y bydd yr ystad a'r gyfundrefn o bosibl wedi'u hailwampio'n well i fodloni anghenion pobl ifanc tra maent dan glo, gyda'r nod o sicrhau lleihad mewn aildroseddu ymysg pobl ifanc pan gânt eu rhyddhau.  
Dywed yr adroddiad, 'Gwerthuso Prosesau Uned Keppel' (2011), a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fod cynlluniau gofal ar yr uned yn fwy tebygol o gynnwys gwaith ar ymddygiad troseddol, gwaith empathi â'r dioddefwr a gwaith penodol gyda CAHMS na chynlluniau gofal a adolygwyd yn y STI prif-ffrwd. Roedd y gwerthusiad hefyd yn awgrymu bod yr amgylchedd unigryw yn Uned Keppel yn fwy tebygol o gyfrannu at ostyngiad cadarnhaol yn y ffactorau risg na phetai'r bobl ifanc wedi cael eu lleoli rywle arall.
28. Opsiwn 3: Datblygu is-safleoedd llai er mwyn cynorthwyo pobl ifanc â'r broses ailsefydlu. Efallai y bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd berson ifanc yn aildroseddu ar ôl cael ei ryddhau drwy wella'r cyfleoedd i gael gafael ar lety addas, yn ogystal â chyfleoedd addysg, hyfforddiant neu waith priodol.
29. Opsiwn 4: Nod y polisi hwn yw sicrhau buddion drwy fodloni anghenion y bobl ifanc yn well a hynny yn ei dro yn lleihau aildroseddu.

## **Y prif risgiau a rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig ag effaith y buddion:**

30. Y mae perygl y bydd y gostyngiad diweddar yn nifer y bobl ifanc dan 18 oed sydd dan glo yn cael ei wyrdroi dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Byddai hyn yn golygu bod gallu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i gyflwyno'r arbedion y cytunwyd arnynt mewn perygl.
31. Yn ogystal, mae'r rhagdybiaethau canlynol yn sail i'r opsiynau sydd wedi'u cyflwyno:
  - Y graddau y mae bodloni anghenion pobl ifanc yn effeithio ar aildroseddu yn y dyfodol.
  - Gall datblygiad unedau gwell barhau dan y ddarpariaeth bresennol a thrwy adolygu'r trefniadau comisiynu.
  - Y newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth yn cael eu gwneud a'u cymeradwyo a gall y ddarpariaeth felly gael ei hamrywio fel yr amlinellir.

## **Effaith net y cynigion**

32. Bwriad rhoi'r pecyn cynigion uchod ar waith yw sicrhau bod y llywodraeth nid yn unig yn gallu cyflawni arbedion wrth ddatgomisiynu'r capasiti dros ben, ond hefyd yn gallu darparu canlyniadau gwell i bobl ifanc drwy deilwra'r gwasanaethau a

dderbynnir yn well tra maent dan glo (drwy, er enghraifft, sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o unedau gwell a darpariaeth ailsefydlu gwell).

### **Profion Effaith Penodol**

#### *Dyletswyddau cydraddoldeb statudol*

33. Y mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth.

#### *Asesu'r Gystadleuaeth a phrawf effaith ar gwmnïau bach*

34. Os bydd y cynigion yr ymgynghorir arnynt yn cael eu cymeradwyo gan randdeiliaid, efallai y bydd effaith ar gwmnïau/darparwyr bach i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda phobl ifanc sy'n cael eu lleoli yn yr ystad sefydliadau diogel. Oherwydd y cynigion, bydd yr ystad sefydliadau diogel yn llai, a fydd yn golygu llai o gyfleoedd i ddarparwyr ddarparu gwasanaethau.
35. Ond, bydd cyfleoedd hefyd i ddarparwyr ddarparu gwasanaethau newydd.
36. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn sicrhau y defnyddir dull gweithredu sy'n seiliedig ar arferion gorau wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod materion cymorth gwladol a gwrth-gystadleurwydd yn cael eu lliniaru wrth ddatblygu'r cynigion.

#### *Asesiad Carbon*

37. Efallai y bydd datblygu cynigion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yn arwain at allyriadau carbon uwch – yn arbennig os cytunir ar ddatblygiadau cyfalaf newydd. Ar hyn o bryd, nid oes modd asesu effaith y cynigion, gan eu bod yn destun ymgynghoriad o hyd.

#### *Amgylchedd Arall*

38. Fe fydd effaith ar yr amgylchedd os bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid mewn sefyllfa i ddatblygu'r adeiladau newydd. Byddai unrhyw effaith (yn dibynnu ar y gallu i ddatblygu'r cynigion) yn cael ei lliniaru drwy sicrhau bod adeiladau newydd yn gynaliadwy a charbon niwtral.

#### *Asesiad o'r Effaith ar Iechyd*

39. Ni fydd y cynigion yn y strategaeth hon yn cael effaith sylweddol ar boblogaeth Cymru a Lloegr, nac ar unrhyw is-grŵp mawr o'r boblogaeth. Ond, byddai gwella canlyniadau adsefydlu a lleihau aildroseddu yn cael effaith gadarnhaol ar y ffactorau risg gwaelodol sy'n ysgogi troseddu, a fyddai'n effeithio ar y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd ymysg pobl ifanc dan glo.
40. Mae'r cynigion polisi yn cynnwys ymdrechion ar y cyd ar draws y Llywodraeth (h.y. yn arbennig gyda'r Adran Iechyd) i roi sylw i'r problemau sydd wrth wraidd aildroseddu megis bod yn gaeth i gyffuriau (gan gynnwys bod yn gaeth i alcohol), materion iechyd meddwl yn ogystal ag anawsterau dysgu.
41. Mae'r buddion iechyd penodol yn cynnwys gwasanaethau gwell wedi'u comisiynu i fodloni anghenion pob person ifanc – gan gynnwys anghenion iechyd corfforol a meddyliol. Bydd hyn yn galluogi pobl ifanc i fabwysiadu ffyrdd o fyw iachach y tu allan i droseddu.

#### *Hawliau Dynol*

42. Bydd cynigion yn y strategaeth yn cael eu datblygu i ystyried gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

*Prawf Effaith ar Gyfiawnder*

43. Gweler prif gorff yr Asesiad Effaith hwn

*Prawfesur Polisiâu Gwledig*

44. Nid ydym yn rhagweld y bydd y cynigion polisi'n cael effaith ar ardaloedd gwledig.

*Datblygu Cynaliadwy*

45. Nid ydym yn rhagweld y bydd y cynigion polisi'n cael effaith ar yr egwyddorion datblygu cynaliadwy canlynol:

- Byw o fewn terfynau amgylcheddol;
- Sicrhau economi gynaliadwy;
- Hyrwyddo llywodraethu da; a
- Defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol.

46. Ond, dylai'r cynigion polisi gael effaith gadarnhaol ar sicrhau cymdeithas gref, iach a theg. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy leihau aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau.

*Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (prawf effaith penodol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder)*

47. Nid yw'r cynigion polisi yn y strategaeth yn gofyn am brosesu na dosbarthu data personol.

*Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb*

48. Mae asesiad ar wahân o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi ar y cyd â'r strategaeth hon.